Fframwaith Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: Ystadegau ac Ymchwil Gymdeithasol

Cefndir

Llofnodwyd Cytundeb Fframwaith rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru fis Medi 2012, ac fe'i diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2014. Pwrpas y Cytundeb Fframwaith yw amlinellu'r berthynas waith rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Llywodraeth, tra'n parchu annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn amlinellu ble bydd cydweithio.

Mae'n datgan y bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn cydweithio mewn meysydd penodol, ac y gall y rhain amrywio o dro i dro. Bydd hyn yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau. Nodir y gellir ychwanegu at y Fframwaith a'i ddiweddaru drwy gytundeb pan fo'n briodol.

Mae'r Fframwaith Cydweithio hwn yn atodol i'r Cytundeb Fframwaith, ac yn cwmpasu *Ystadegau ac Ymchwil Gymdeithasol.* Arwyddwyd y Fframwaith Cydweithio Ystadegau ac Ymchwil Gymdeithasol yn wreiddiol fis Ionawr 2015, ac fe'i diweddarwyd fis Medi 2018.

Nod Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru yw cefnogi'r broses o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisi yng Nghymru. Mae'n cyflawni hyn trwy archwilio effeithiolrwydd polisïau, ymyraethau a phrosiectau, a hwyluso gwelliannau ar sail tystiolaeth gadarn. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau meintiol ac ansoddol i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Rôl Gwasanaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru yw cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, dyrannu arian a chyflawni gwaith ymchwil o fewn y Llywodraeth a'r gymuned ehangach trwy ddarparu gwasanaeth ystadegol dibynadwy ac effeithlon.

Cydweithio: egwyddorion

Bydd Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth ac yn adnabod cyfleoedd i weithio ar y cyd ym maes ystadegau ac ymchwil gymdeithasol â'r nod o hyrwyddo'r egwyddorion canlynol:

- Datblygu sail tystiolaeth gadarn a chynhwysfawr ynghylch anghenion y Gymraeg a'i siaradwyr;
- Blaengynllunio'n strategol ac osgoi dyblygu gwaith;
- Osgoi gosod baich diangen ar randdeiliaid, ymatebwyr a phartneriaid ymchwil;

- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Bydd achosion yn codi hefyd pan na fydd yn briodol i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth nac i weithio ar y cyd.

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

Caiff gwaith Llywodraeth Cymru ym maes ymchwil a data ei gyflawni yn unol ag Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ymchwil a Gwerthuso[1] a Chod Ymarfer Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS).[2] Maent yn berthnasol i ansawdd y gwaith a gynhyrchir a hefyd i'r gweithdrefnau sydd yn rheoli cyhoeddi ymchwil.

Mae Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ymchwil a Gwerthuso fel a ganlyn: Rhoi ystyriaeth gynnar i waith gwerthuso o'r cychwyn cyntaf; Cynllunio gwaith ymchwil a gwerthuso yn effeithiol; Cyhoeddi ymchwil yn unol â phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth); Gweithredu ar ymchwil; Gwerth am arian.

Rhaid i gyrff o fewn y DU sy'n gyfrifol am ystadegau swyddogol gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar dri philer: Dibynadwyedd, Ansawdd a Gwerth. Gyda'i gilydd mae'r pileri hyn yn cefnogi hyder y cyhoedd mewn ystadegau.

Mae'r Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009 yn nodi'r rheolau ac egwyddorion sydd i'w dilyn mewn perthynas â chaniatáu i bobl benodol weld mathau penodol o ystadegau ymlaen llaw cyn eu cyhoeddi'n swyddogol.

Ystadegau ac Ymchwil Gymdeithasol Comisiynydd y Gymraeg

Yn ôl Adran 4(2) (e) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 caiff Comisiynydd y Gymraeg wneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud. Mae'r Comisiynydd wedi ei enwi o dan Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013, ac mae disgwyl i'r Comisiynydd ddilyn Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol Awdurdod Ystadegau y DU.

Rhannu gwybodaeth: ystadegau ac ymchwil gymdeithasol

Bydd Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am ystadegau ac ymchwil gymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys:

---

[1] https://gov.wales/statistics-and-research/about/?skip=1&lang=cy

[2] https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/

- rhoi gwybod am waith ymchwil sydd eisoes ar y gweill gan y ddau sefydliad;

- rhoi gwybod am waith ymchwil sy'n cael ei gynllunio gan y ddau sefydliad;

- rhoi gwybod am gynlluniau o ran cyhoeddi cynnyrch gwaith ymchwil (e.e. adroddiadau, seminarau);

- rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau ymchwil ehangach a allai fod o ddiddordeb i'r sefydliad arall.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi gwybod i Gomisiynydd y Gymraeg pan fo gwaith ymchwil yn ymwneud â'r Gymraeg (ond nid o reidrwydd yn benodol i'r Gymraeg) ar fin cael ei gyhoeddi, pan fo hynny'n rhesymol.

Yn yr un modd, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pan fo gwaith ymchwil tebyg ar fin cael ei gyhoeddi, pan fo hynny'n rhesymol.

Bydd yr egwyddor o rannu gwybodaeth yn ddarostyngedig i'r ffiniau amser a nodir yn y Cytundeb Fframwaith ('Rhannu Gwybodaeth'), ac i unrhyw amodau eraill sydd yn gysylltiedig â gofynion cyrff proffesiynol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion cydymffurfio Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) a phrotocol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) o ran cyhoeddi data ac ymchwil.

Dulliau rhannu gwybodaeth

Bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn rhannu gwybodaeth am waith ymchwil sydd ar y gweill neu sydd wedi ei gwblhau trwy'r dulliau isod:

- Cyfarfodydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am Ystadegau ac Ymchwil Gymdeithasol a Chomisiynydd y Gymraeg o leiaf bob chwe mis. Bydd cofnod yn cael ei baratoi o bob cyfarfod;

- Cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru;

- Seminarau, cynadleddau a fforymau eraill a drefnir i hybu cydweithio â phartneriaid ym maes ymchwil a gwerthuso;

- Cyfarfodydd a chyfleoedd newydd a gaiff eu hadnabod wrth i'r Fframwaith Cydweithio gael ei ddatblygu a'i adolygu.

Dulliau blaengynllunio ymchwil

Bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn rhannu eu bwriadau o ran ystadegau ac ymchwil gymdeithasol trwy gyfrwng y canlynol:

- Cyfarfod o leiaf bob chwe mis rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg;
- Cynllun Tystiolaeth Ystadegau ac Ymchwil ar gyfer y Gymraeg, Llywodraeth Cymru (blynyddol);
- Rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg.

Gall y dulliau hyn hefyd fod yn ffordd o adnabod cyfleoedd i gomisiynu ymchwil ar y cyd.

Rhannu data

Bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn rhannu data, yn ddibynnol ar hawl gyfreithiol, â chytundebau priodol yn eu lle. Bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am eu dadansoddiadau eu hunain oni bai bod trefniadau cydweithio wedi eu cytuno o flaen llaw.

Bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth pan fo'n briodol ar y canlynol:

1. **Cyfrifiad** – yn cynnwys dadansoddi canlyniadau'r Cyfrifiad, ymateb i ymgynghoriad (ffurfiol neu anffurfiol) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Grŵp Ymgynghorol y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a materion ehangach yn ymwneud â'r Cyfrifiad.
2. **Arolwg Defnydd Iaith** – yn cynnwys dadansoddi canfyddiadau'r arolwg a lledaenu canfyddiadau'r arolwg ymhellach, a chynllunio arolygon defnydd yn y dyfodol.
3. **Data eraill yn ymwneud â'r Gymraeg** – yn cynnwys data eraill a gasglwyd gan neu ar ran Llywodraeth Cymru (e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion), amcanestyniadau o'r iaith yn y dyfodol a dadansoddiadau eraill.
4. **Materion ystadegol** – yn cynnwys datblygu materion polisi'r Gwasanaeth Ystadegol a mynychu cyfarfodydd am faterion ystadegol a all fod yn berthnasol i'r Gymraeg neu'n berthnasol i statws Comisiynydd y Gymraeg fel cynhyrchydd ystadegau, e.e. Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddangosyddion Strategaeth y Gymraeg. Gall Comisiynydd y Gymraeg gynghori yn ôl yr angen yn dilyn ceisiadau gan Lywodraeth Cymru a rhannu gwybodaeth pan fo'n briodol ac yn ddibynnol ar hawl gyfreithiol.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am adroddiadau 5-mlynedd y Comisiynydd, gyda Llywodraeth Cymru yn rhannu data yn ôl yr angen yn ddibynnol ar hawl gyfreithiol.

Adroddiadau 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg

Mae Adran 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod yn rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg lunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y cyfnod hwnnw. Cafodd yr adroddiad cyntaf ei gyhoeddi ym mis Awst 2016. Yn unol ag Adran 5(3) y Mesur mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad ar ganlyniadau'r Cyfrifiad 2011 ac asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg. Nid oes cyfyngiad ar y materion eraill y caiff y Comisiynydd eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad 5-mlynedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu data â Chomisiynydd y Gymraeg ar gais y Comisiynydd, yn ddibynnol ar hawl gyfreithiol, â chytundebau priodol yn eu lle i'w dadansoddi a'u cynnwys gan Gomisiynydd y Gymraeg yn yr adroddiad 5-mlynedd.

Cyfleoedd i gomisiynu ymchwil ar y cyd

Pan fo'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn comisiynu ac yn cyhoeddi ymchwil ar y cyd. Bydd rhai amgylchiadau lle gallai comisiynu a chyhoeddi yn annibynnol fod o fantais yn y cyd-destun academaidd a dinesig ehangach. Mewn achosion o'r fath bydd angen sicrhau na fydd hyn yn effeithio'n negyddol ar ansawdd yr ymchwil ei hun.

Materion Penodol i Ystadegau: Cynhyrchwyr Ystadegau Swyddogol

Yn dilyn cadarnhad statws Comisiynydd y Gymraeg fel Cynhyrchydd Ystadegau Swyddogol bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ar faterion penodol.

Adolygu

Mae'r Cytundeb Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn nodi bod y Llywodraeth a'r Comisiynydd yn cytuno i adolygu'r Fframwaith yn flynyddol a'i ddiweddaru drwy gytundeb.

LLOFNODWYD
(dyddiad fersiwn diweddaraf: Medi 2018)

.....

Glyn Jones
Prif Ystadegydd
Llywodraeth Cymru

Dyddiad 11/10/ 2018

.....

Steven Marshall
Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Dyddiad 15/10/ 2018

.....

Dyfan Sion
Cyfarwyddwr
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad 13/09/ 2018